**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 19/05/2022 AM 7.55pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.**

1. **CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd newydd etholedig y Gyngh. Angharad Jones, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen, yn syth ar derfyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, wrth lynnu wrth rheoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru.

2. **YN BRESENNOL**

   Y Cyngh. Roland Bago; Y Gyngh. Mel Briant; Y Cyngh. Ieuan Davies; Y Gyngh. Angharad Jones; Y Cyngh. Richard Jones; Y Cyngh. Gareth Owen, Y Cyngh. Alun Price-Jones, Dirprwy-Gadeirydd y Cyngh. Doug Rowbotham; Y Cyngh Elgan Williams.
   Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies.
   Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.
   Eleri Thomas (Clerc).

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyngh Non Jones am ei anallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **Dathliadau Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi Elisabeth 11: 3ydd Mehefin 2022**.
   Diweddarodd Clare Hughes aelodau ar ddatblygiadau. Derbyniwyd grant oddeutu £3,000 ar gyfer:
   Castell Neidio £150
   Rodeo £325
   Rhubanau £150
   Lliain bwrdd £390
   Taflenni/ Posteri £150
   Seddi £400
   Mygiau £965, 140 o fygiau – 110 o ddisgyblion: ysgol, Ysgol Feithrin, Ti a Fi (gweddill ar werth) wedi'u prynu o siop yn Nhregaron.
   Plac.
   Hufen iâ am ddim ar y diwrnod.
   Prynwyd bynting;
   Clwb Saethu Tregaron.
   Clwb Saethyddiaeth;
   Coets.
   Pobl i ddod â phicnic eu hunain i Neuadd Pantyfedwen (Neuadd Fach).
   Adroddodd y Cyngh. Richard Jones, Cadeirydd Clwb Pêl Droed y Bont nad oedd y Cyngor Cymuned wedi gofyn caniatâd i ddefnyddio'r Cae Pêl-droed ar y 3ydd o Fehefin 2022. Cytunwyd i wneud hynny.
   Digwyddiad i ddechrau am 2pm. Cynghorwyr i helpu. Trefn: Gemau/ Picnic/ cyflwyno mygiau.
   Baneri i'w harddangos o gwmpas y Pentref ar ddydd Sadwrn 28ain o Fai: gwirfoddolwyr i ymgynnull y tu allan i Neuadd Pantyfedwen am 10.45am.

   **Diffibrilwyr y Pentref:** Cofrestrwyd dau diffibriliwr ar y Gylchdaith; un gerllaw'r Siop ac un yn agos i Neuadd Pantyfedwen. Fflat oedd y batris ar hyn o bryd ac roedd angen eu monitro bob mis. Ceredig oedd gofalwr enwebedig Diffibriliwr y Siop. Etholwyd Clare Hughes yn unfrydol i fod yn ofalwr ar gyfer diffibrilwr y Neuadd Bentref.

Holodd y Cyngh. Elgan Williams tybed a fyddai'n bosibl i leoli diffibrilwr yn ardal Ffair Rhos. Cytunwyd clustnodi sylw pellach i'r mater.

## 5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

**Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans** yr aelodau ar ddigwyddiadau diweddar yn yr ardal.
Galwadau Twyll/Sgam :-Mae galwadau sgam yn dal i ddigwydd.

Roedd plat rhif car wedi syrthio i ffwrdd / wedi'i dynnu i ffwrdd yn bwrpasol.
Trafodwyd materion traffig o fewn y Pentref. Adroddodd y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies bod ymchwiliadau'n mynd rhagddynt ynghylch lleihau y terfyn cyflymder o 30mya i 20mya o fewn Parth cyfyngiad cyflymder y pentref O ran parcio, roedd gosod cyfyngiadau'n her gan fod yn well gan y mwyafrif o fodurwyr barcio o flaen eu cartrefi.
Cytunwyd gwahodd cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys i gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned i drafod y sefyllfa o ran dedfrydu unigolyn o Ystrad Meurig am drosedd ddifrifol. Gofynnwyd i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ymchwilio i'r mater, o ystyried ei ddifrifoldeb a chonsyrn dwfn y cyhoedd.

## 6. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU

Y Gyng Mel Briant a'r Cyngh Richard Jones pan yn trafod ffens y parc. Cofnod 8.1.

## 7. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 21ain Ebrill 2022

**CYNIGIWYD** (y Cyngh. Alun Price Jones), **Eiliwyd** (y Cyngh. Gareth Owen) a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod yr 21ain Ebrill 2022, yn gywir.
**Arwyddwyd gan y Cadeirydd.**

## 8. MATERION YN CODI

**8.1** **Ffens y Parc (rhwng y parc a'r cae pêl droed – uchder 1m):** Cysylltwyd â'r Clwb Pêl Droed i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am y ffens a tybed a oedd angen iddo fod mewn lle. ***Disgwylir ymateb i'r llythyr.***
Penderfynwyd darganfod canlyniad Arolwg Rospa ar gyfer meysydd chwarae a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2022 cyn gwneud penderfyniad parthed y ffens.

**8.2** **Adroddwyd mewn cyfarfod cynt** bod angen tocio coed yn agos at Dyllyn, Ffair Rhos. Gofynnodd y perchennog am fanylion pellach. Dywedodd y Cyngh. Gareth Owen iddo drafod y mater â'r perchennog; daethpwyd i gytundeb.

**8.3** **Casglu Sbwriel:** Dydd Mawrth 26ain Ebrill 2022 am 5pm. Cytunwyd diolch i aelodau'r cyhoedd am helpu i gasglu sbwriel o amgylch y pentre ar y 26ain Ebrill a hefyd i'r Llew Coch am ddarparu bwyd ar ôl y digwyddiad heb hawlio tâl.
Penderfynwyd trefnu casgliad sbwriel pellach cyn yr Eisteddfod Genedlaethol 2022.

**8.4** **Argyfwng Wcrain:** Trefnwyd cyfarfod ar gyfer y 12.05.2022
Gellir darllen y cofnodion ar safle ar y we'r Cyngor Cymuned.

wcrain-12.05.2022-c.pdf (wordpress.com)
Jasmine Wilson i drefnu cyfarfod ar gyfer 24ain o Fai 2022.

**8.5** **Hysbyswyd mewn cyfarfod blaenorol fod angen carthu'r Afon Teifi**; roedd dŵr yn aml yn cronni yng nghyffiniau'r Llew Coch. Cytunwyd i ofyn am gyfarfod safle â chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'r Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies yn gwahodd Swyddog o'r Cyngor Sir i fynychu. Enwebwyd y Cyngh. Roland Bago a'r Cyngh. Richard Jones i fod yn bresennol yn ystod y Cyfarfod.

**8.6** **Adroddwyd bod** angen codi'r gyli a bod dŵr yn treiddio i ardd eiddo Llidiart-y-Ffair, Ffair Rhos. Penderfynwyd adrodd y mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**8.7** **Mae canclwm Japan (**Japanese Knotweed) yn peri'n broblem yn ardal Glan-yr-Afon, Pontrhydfendigaid. i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**9 GOHEBIAETH**

**9.1** **Rachel Carter:** Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur: gwahoddiad i Gynghorwyr i ymuno â Hwb Natur a gynhelir ar Microsoft Teams i drafod prosiectau, a syniadau amgylcheddol a ffrydiau ariannu newydd a phopeth "Natur": er gwybodaeth.

**9.2** **Rachel Carter:** Dathlu Natur: 2-10 Gorffennaf 2022. Pecynnau Gerddi am ddim o Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Dyddiad Cau: 23ain o Fai 2022.

**9.3** **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Gweminar Cymunedau Oed-gyfeillgar mewn Partneriaeth, 29 Mehefin 2022, 11:00am-12.50pm.**
**Cyfle i ymuno** â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a phartneriaid sy'n gweithredu i wneud cymunedau Cymru'n oed-gyfeillgar i weld sut y gellir cydweithio'n effeithiol i sbarduno a chyflawni newid ar gyfer pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

i archebu eich lle, ewch i: https://tocyn.cymru/cy/event/f363af58-a8db-4791-b510-162cb05845fb

**9.4** **Hysbysiad o Arolwg** Ardal Chwarae Pantyfedwen gan ROSPA: wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2022 am bris o £70.

**9.5** **Gohebiaeth Pellach**: er gwybodaeth yn unig.

**10. CYLLID**

**TALIADAU**

**10.1** **Archwilio Cyfrifon 2022:** Gwybodaeth ynghylch Archwiliad Allanol Statudol. Mae Mrs Enid Hughes wedi cytuno i ymwneud â'r Archwiliad Mewnol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2021-22 erbyn yr 16eg o Fehefin 2022.

**10.2** **Cyflog y Clerc: Mai 2022:** £193.83

**10.3** **Grant y Loteri Genedlaethol ar gyfer Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi Elisabeth 11:** Propiau Parti £33.98 (gan gynnwys TAW)
**Addurniadau Jiwbili Blatinwm EM Elisabeth 11** £29.97 (gan gynnwys TAW)

**10.**4 **Zoll Pad Dadebru Cardio-Pwlmonaidd**: Pecyn Ymateb Cyntaf: £95 TAW £19

**10.5** **Costau Ynni i oleuo golau stryd rhwng canol-nos a 05:00 ar gais** y Cyngor Cymuned am y cyfnod 1af Ebrill 2021 tan 31ain o Fawrth 2022: £370.58.

**DERBYNIADAU**

**10.6** **Praesept 2022/23 mewn rhan CS** Ceredigion £2,404.34

**11. CYNLLUNIO**

**Dim materion cynllunio i'w trafod.**

**12. UFA**

**12.1** **Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones fod Clwb Pêl-droed y Bont yn nodi ei 75 mlwyddiant ar y 9fed o Fehefin 2022.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm.**

**13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol: Dydd Iau 16eg o Fehefin 2022 am 7pm.**

================================================ (Arwyddwyd / Dyddiad**)**